



Tyfu Canolbarth Cymru Mehffin 2024

Croeso i rifyn mis Mehefin o lythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru!

Y mis hwn, rydym yn cyflwyno'r wybodaeth a'r mentrau diweddaraf gan ein tîm ymroddgar. Mae ein [harolwg](#) Cefnogi Menter yn para tan **21 Gorffennaf**. Ydych chi wedi'i rannu eto â busnesau yn y rhanbarth? Ei nod yw nodi'r angen am ymyrraeth ar ffurf cyllid yn y farchnad leol ar gyfer safleoedd ac eiddo masnachol. At hynny, rydym newydd lansio [prosiect mapio](#) signal ffonau symudol, sy'n arloesol ac yn gost-effeithiol ac y bwriedir iddo wella seilwaith digidol yn y canolbarth.

Yr aelod sy'n cael sylw yn ein colofn 'Cwrdd â'r Tîm' y mis hwn yw Arinola Ogundeji. Mae'n taflu goleuni ar ei rôl sy'n ymwneud â sicrhau bod amryw fentrau datblygu sgiliau'n cael eu cydlynu a'u gweithredu yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth.

Mae'r llythyr newyddion hwn hefyd yn rhoi sylw i'n sesiwn galw heibio yn y Sioe Fawr eleni, a fydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgu mwy am y Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol.

Dyma gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r prosiectau a fydd yn llunio dyfodol y canolbarth, a chyfle i ymwneud â'r gwaith. Mwynhewch y darllen!

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

[Clawr: Traphont Cnwclas, Powys ©Croeso Cymru]

Cynnwys


- Y Sefyllfa Bresennol o ran Cysylltedd yng Nghanolbarth Cymru
- Lansio Prosiect Mapio Symudol sy'n Arloesol i Nodi 'Mannau Gwan Symudol' yng Nghanolbarth Cymru
- Arolwg Cefnogi Menter
- Sesiwn galw heibio ynghylch ynni yn y Sioe Fawr
- Cwrdd â'r Tîm: Arinola Ogundeji, Swyddog Cymorth Prosiectau, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Newyddion eraill: AR AGOR: Cyfres Her Launchpad y Canolbarth Rownd 3: Her Bwyd-Amaeth
- Newyddion eraill: Y Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Y Sefyllfa Bresennol o ran Cysylltedd yng Nghanolbarth Cymru

Mae cynnydd sylweddol wedi bod o ran y seilwaith digidol ar draws Canolbarth Cymru, er bod heriau gwledig sylweddol yn bodoli o hyd.

Er enghraifft, mae dros 50% o Ganolbarth Cymru bellach yn gallu cael band eang ffeibr llawn - mae hynny'n 1 o bob 2 eiddo preswyl neu fusnes. Mae hyn yn gynydd o dros 26% ers 2022. Mae Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu i wella seilwaith digidol y rhanbarth a gwella cysylltedd digidol i bawb. Gwiriwch a oes gan eich eiddo fynediad at ffeibr llawn nawr: [Fibre Checker \(openreach.com\)](https://www.openreach.com/fibre-checker)

Edrychwch ar [ein tudalen](#) we newydd sy'n tynnu sylw at y cynnydd mewn band eang, darpariaeth symudol 4G, hyrwyddo technolegau newydd, heriau allweddol, cyfleoedd, gan gynnwys Rhaglen Ddigidol TCC a mentrau Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.



Lansio Prosiect Mapio Symudol sy'n Arloesol i Nodi 'Mannau Gwan Symudol' yng Nghanolbarth Cymru

Nod y prosiect hwn, un o'r rhai cyntaf o'i fath yng Nghymru, yw nodi ardaloedd â signal symudol gwael a gallu gwael o ran y rhwydwaith, a elwir yn 'fannau gwan symudol'. Drwy ddefnyddio dyfeisiau cipio data symudol uwch sydd wedi'u gosod mewn cerbydau casglu gwastraff ar draws Powys a Cheredigion, bydd y prosiect yn casglu data hanfodol ar gyfer gwella cysylltedd symudol a chysylltedd rhyngwyd 4G.

Prif nod y prosiect mapio symudol yw creu map cywir a manwl o'r signal symudol yng Nghanolbarth Cymru, gan nodi ardaloedd â signal symudol annigonol a phroblemau o ran gallu'r rhwydwaith sy'n effeithio ar ddefnyddioldeb i drigolion a busnesau. Bydd data gan y pedwar prif Weithredydd Rhwydwaith Symudol - EE, O2, Three, a Vodafone - yn cael ei gasglu.

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddatblygu prosiectau ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â heriau cysylltedd mewn ardaloedd allweddol.

Darllenwch yr erthygl llawn [yma](#).



Arolwg Cefnogi Menter

! Dyddiad Cau 21 Gorffennaf !

A oes angen cymorth arnoch i ehangu eiddo masnachol?

Rydym yn rhedeg arolwg er mwyn deall yn well gynlluniau busnesau ar draws y rhanbarth ar gyfer tyfu yn y dyfodol a'u hangen am eiddo masnachol.

Bydd yr ymatebion i'r arolwg yn galluogi ni i ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran cymorth, a allai helpu busnesau i gyflawni eu nodau o ran datblygu.

👉 <https://bit.ly/SupportingEnterpriseSurvey> (Defnyddiwch y gwymplen 'English' ar y dde i newid i'r ffurflen Gymraeg)



Arolwg Cefnogi Menter

A oes angen cymorth arnoch i ehangu eiddo masnachol?

Hoffem ni deall yn well gynlluniau busnesau lleol ar gyfer tyfu yn y dyfodol a'ch angen am eiddo masnachol.



DYDDIAD CAU NEWYDD

Bydd yr arolwg ar agor tan 21ain Gorffennaf 2024

Sesiwn galw heibio ynghylch ynni yn y Sioe Fawr

Mae'r Sioe Fawr lwyddiannus yn prysur agosáu. Bydd Dr Gemma Delafield, ein Harweinydd Ynni Rhanbarthol, wrth law i sgwrsio mewn sesiwn galw heibio ynglŷn â Chynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol fore dydd Mercher, 24 Gorffennaf. Bydd y sesiwn yn gyfle i ddysgu mwy am y cynlluniau ac am y sefyllfa bresennol o ran ynni a thrafnidiaeth ar draws y rhanbarth, a dysgu sut y gallwn ddatgarboneiddio cartrefi a busnesau ar draws canolbarth Cymru. Yn ogystal, bydd pensetiau realiti rhithwir ar gael er mwyn i chi allu rhoi cynnig ar godi tŷ cynaliadwy newydd sbon!

Felly, os byddwch yn mynd i'r Sioe Fawr eleni, cofiwch alw heibio i'n gweld!

Amser: 9.30am-12pm

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Gorffennaf

Lleoliad: Stondin Cyngor Sir Ceredigion, cyfeirnod grid: [F4](#), y tu ôl i'r prif gylch.

Ateber erbyn: Sesiwn galw heibio, felly nid oes angen cadw lle



Cwrdd â'r Tîm

Arinola Ogundeji, Swyddog Cymorth Prosiectau, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru



Pryd y gwnaethoch ddechrau gyda'r tîm?

Ymunais â'r tîm ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n teimlo fel ddoe, ond mae cymaint wedi digwydd ers hynny.

Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?

Rwy'n Swyddog Cymorth Prosiect ar gyfer Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. Yn y rôl, rwy'n cynorthwyo tîm y Bartneriaeth drwy sicrhau bod yr holl amcanion yn cael eu cyflawni. Mae hynny'n golygu llawer o waith cydlynu, cynllunio a chyfathrebu er mwyn sicrhau bod ein prosiectau ar y trywydd iawn a'u bod yn cyflawni ein nodau.

Beth yw eich blaenoriaethau presennol?

Ffocws fy mlaenoriaethau presennol yw parhau i gynorthwyo'r tîm i gyflawni prosiectau llwyddiannus. Mae hynny'n golygu parhau i fod yn drefnus, rheoli amserlenni, a sicrhau bod gennym yr adnoddau y mae arnom eu hangen i lwyddo. Rydym wedi bod yn gweithio ar greu gwefan newydd y Bartneriaeth ac ar ddiweddarau'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, felly bydd yn braf gweld y rhain yn dod ar gael i'r cyhoedd yn fuan.

Pa ddatblygiadau yr ydych wedi'u gweld dros y blynyddoedd?

Ers ymuno â'r tîm, rwyf wedi gweld llawer o dwf a llawer o esblygu. Un o'r datblygiadau mwyaf nodedig oedd sefydlu Grwpiau Clwstwr sy'n canolbwyntio ar y sectorau â blaenoriaeth. Mae hynny wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar feysydd penodol, hybu gwelliannau wedi'u targedu, a chreu cysylltiadau cryfach o fewn ein cymuned.

Beth yw eich cyflawniad mwyaf?

Drwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi cael cyfle i weithio ar lawer o brosiectau dylanwadol a chyrraedd cerrig milltir o bwys. Un cyflawniad amlwg yw fy llwyddiant ym maes gwasanaeth i gwsmeriaid, lle'r enillais ddwy wobwr gan fy nghyflogwr blaenorol. Roedd y gwobrau hynny'n brawf o fy ymrwymiad ac o fy ngallu i gael effaith gadarnhaol.

Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:

Tîm solet. Mae'r gair yn cyfleu cryfder, undod a gwytnwch ein tîm. Rydym yn cynorthwyo ein gilydd, yn gweithio'n galed, a bob amser yn ceisio tyfu a gwella gyda'n gilydd.

Newyddion Eraill

AR AGOR: Cyfres Her Launchpad y Canolbarth Rownd 3: Her Bwyd-Amaeth

Mae Cyfres Her Launchpad y Canolbarth yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU, a yrrir gan Ffyniant Bro, gyda'r nod o ddatblygu atebion newydd i faterion sector cyhoeddus a chymdeithasol trwy ymchwil ac arloesi tra'n cynnig cyfleoedd marchnad newydd i fusnesau a phobl y Canolbarth.

Mae'r her hon yn her un cam gyda'r bwriad o ddangos dichonoldeb y cysyniad arfaethedig. Bydd y contractau datblygu a ddyfernir am gyfnod o 3 mis gyda chontractau unigol yn werth £5,000.

Bydd digwyddiad briffio ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb mewn darganfod mwy am yr her yn cael ei gynnal bron ar 3ydd Gorffennaf am 2pm. [Cofrestrwch yma](#).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm ar 31 Gorffennaf 2024.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan [ArloesiAber](#).



Newyddion Eraill

Y Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau cyflawni lleol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i sicrhau bod gennym gymysgedd eang o brosiectau a fydd yn ein helpu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau yn y rhanbarth.

Dyma grynodedeb o rywfaint o'r newyddion diweddaraf ynghylch sut y mae'r gronfa yn cyfrannu i gyfleoedd sy'n ymwneud â chymunedau, busnesau a diwylliant ar draws y rhanbarth:

- [Cyfanswm o £143,000 o gymorth Grantiau Twf yn helpu 13 cwmni o Bowys - Cyngor Sir Powys](#)
- [Sefydliadau'r celfyddydau i rannu grant o £675,000 gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin - Cyngor Sir Powys](#)
- [Cymunedau Ceredigion yn cael eu hannog i "fabwysiadu" eu hafonydd lleol - Cyngor Sir Ceredigion](#)
- [SBARC Ceredigion yn datblygu mentergarwch a hyder yng Ngheredigion - Cyngor Sir Ceredigion](#)



1 -

- [Cyfanswm o £143,000 o gymorth Grantiau Twf yn helpu 13 cwmni o Bowys - Cyngor Sir Powys](#)



2 -

- [Sefydliadau'r celfyddydau i rannu grant o £675,000 gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin - Cyngor Sir Powys](#)



3 -

- [SBARC Ceredigion yn datblygu mentergarwch a hyder yng Ngheredigion - Cyngor Sir Ceredigion](#)



4 - [Cymunedau Ceredigion yn cael eu hannog i "fabwysiadu" eu hafonydd lleol- Cyngor Sir Ceredigion](#)

Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

<https://www.youtube.com/@TCC-GMW>

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

